Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru; Ionawr – Mawrth, 2023

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH








Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 80/2023

Dyddiad Cyhoeddi 10/08/2023

© Hawlfraint y Goron 2023

ISBN Digidol: 978-1-83504-475-9

Visit Wales
Croeso Cymru

STRATEGIC
RESEARCH & INSIGHT

# Dull ac Amcanion

**Pam mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal?**



- I roi cipolwg allweddol ar dwristiaeth ledled Cymru
- I lywio penderfyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector twristiaeth
- I lywio cynlluniau awdurdodau lleol ar gyfer y sector twristiaeth

**Sut mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal?**



- Ail-lansiwyd ym mis Awst 2022 yn dilyn y bwlch yn ystod blynyddoedd Covid
- SRI wedi'i benodi gan gorff Croeso Cymru i reoli'r arolwg
- Cesglir y data yn fisol trwy ddau ddull:
    - Ffôn
    - Ar-lein



- Cesglir y data ar *Ribos* – meddalwedd deiliadaeth bwrpasol
- https://wales.ribos.co.uk/

# Samplu a Chyfansoddiad



**Pa ddata sydd yn yr adroddiad hwn?**

- Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data o dair ffynhonnell:
  - Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru (WAOS) a gynhaliwyd gan SRI, cwmni ymchwil yng Nghymru.
  - CoStar Ltd, cwmni systemau rheoli eiddo sy'n rhoi data am westai â gwasanaeth, a
  - Transparent, cwmni cribo'r we sy'n rhoi data am Osodiadau Tymor Byr

**Beth mae'r data hwn yn ei gynnwys?**

- Mae manylion llawn y sampl, meini prawf dethol a chyfyngiadau i'w gweld ar dudalennau 4, 5 a 6.

# Samplu - WAOS

| | Ionawr | | | Chwefror | | | Mawrth | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ar agor | Ar gau | C’swm | Ar agor | Ar gau | C’swm | Ar agor | Ar gau | C’swm |
| Gwasanaeth | 138 | 148 | 286 | 139 | 128 | 267 | 146 | 104 | 250 |
| Hunanddarpar | 743 | 129 | 872 | 669 | 167 | 836 | 712 | 116 | 828 |
| Hosteli | 21 | 12 | 33 | 22 | 10 | 32 | 20 | 9 | 29 |

## Pwy sydd yn y categori 'â gwasanaeth'?

- Gwestai annibynnol*
- Tai gwestai / Gwely a Brecwast

## Pwy sydd yn y categori 'hunanddarpar'?

- Asiantaethau sy'n cyflwyno data fesul bloc
- Bythynnod / fflatiau annibynnol

## Beth am Wersyllfeydd a Charafanau?

- Gan eu bod ar gau ar adegau penodol, ni ofynnwyd i safleoedd gwersylla a charafanau am ddeiliadaeth yn ystod y cyfnod hwn.

## Pwy sydd yn y categori 'hosteli'?

- Cymdeithasau sy'n cyflwyno data fesul bloc
- Hosteli annibynnol i dwristiaid

** Mae gwestai sy'n rhan o gadwynni mwy yn cael eu cynnwys mewn ymchwil ar wahân gan STR Global*

# Data Trydydd Parti – Transparent ac STR

## Transparent

- Defnyddir data am osod tymor byr a ddarperir gan Transparent i gyfrifo deiliadaeth ar gyfer y sector gosod tymor byr ac fe'i cyflwynir yn rhan o adran hunanddarpar yr adroddiad hwn.
- Mae'r data hwn yn wahanol i'r data arall a gyflwynir yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn cynnwys data wedi'i gribo o'r we ac sydd wedi'i wirio'n annibynnol. Mae'n cynnwys yr holl osodiadau tymor byr a hysbysebwyd ar set o Asiantaethau Teithio Ar-lein (OTAs) a ddiffiniwyd ymlaen llaw (AirBnB, Booking.com, Vrbo, a TripAdvisor), tra bod WAOS yn seiliedig ar ddull samplu sy'n amcangyfrif defnydd cyffredinol y sector o is-set lai o gyfranogwyr.
- I gael rhagor o wybodaeth am y data hwn, ewch i wefan Transparent neu cysylltwch ag awdur yr adroddiad hwn.

## STR Global

- Mae rhywfaint o ddata am lety â gwasanaeth (a adroddir ar wahân yn adran berthnasol yr adroddiad) yn dod gan STR Global
- Mae'r data hwn yn cael ei ddarparu gan STR i Croeso Cymru ac mae'n seiliedig ar banel sefydlog o gyfranogwyr sy'n adrodd am ddeiliadaeth bob dydd neu'n fisol. Mae STR yn gwirio'r data hwn yn annibynnol.

# Data Trydydd Parti – Transparent ac STR

**Transparent**

Cyflwynir data a ddarperir trwy Transparent ar ddangosfwrdd ar-lein gydag opsiynau hidlo i ddiffinio pa ddata sydd wedi'i gynnwys.

At ddibenion dadansoddi yn yr adroddiad hwn cafodd data ei hidlo ar sail y meini prawf canlynol:

- Dim ond eiddo cyfan a aseswyd ac nid oedd yn cynnwys ystafelloedd preifat neu a rennir. Dyma'r diffiniad ar gyfer gosodiadau tymor byr at ddibenion dadansoddi yn yr adroddiad hwn.
- Dim ond eiddo a nodwyd yn gywir gyda rhanbarth penodol a gafodd eu cynnwys. Gan na roddwyd data adnabod i rai eiddo, nid oedd modd rhoi cyfrif amdanynt yn briodol ar sail ranbarthol, ac eithriwyd y rhain oherwydd hynny.

| | Gogledd | Canolbarth | De-ddwyrain | De-orllewin |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | 10,364 | 4,140 | 3,652 | 7,778 |
| **Chwefror** | 10,368 | 4,110 | 3,685 | 7,726 |
| **Mawrth** | 10,522 | 4,156 | 3,761 | 7,879 |

# Data Trydydd Parti – Transparent ac STR

## STR Global

- Mae rhywfaint o ddata am lety â gwasanaeth (a adroddir ar wahân yn adran berthnasol yr adroddiad) yn dod gan STR Global
- Mae'r data hwn yn cael ei ddarparu gan STR i Croeso Cymru ac mae'n seiliedig ar banel sefydlog o gyfranogwyr sy'n adrodd am ddeiliadaeth bob dydd neu'n fisol. Mae SRR yn gwirio'r data hwn yn annibynnol.

| | Ar agor | Ar gau |
|---|---|---|
| Ionawr | 130 | 19 |
| Chwefror | 131 | 18 |
| Mawrth | 132 | 17 |

# Pwysoli - WAOS


**Pwysoli**

- Canlyniadau ar gyfer pob sector wedi'u pwysoli yn ôl rhanbarth (Gogledd / Canolbarth / De-orll. / De-ddwyr. Cymru) ar sail capasiti amcangyfrifedig o welyau gan ddefnyddio arolwg stoc diweddaraf Croeso Cymru o welyau

- Mae pwysoli felly yn cywiro unrhyw anghydbwysedd yn ôl rhanbarth ym mhob sector

- Mae'r canlyniadau yn cael eu pwysoli'n naturiol yn ôl maint yr eiddo gan fod deiliadaeth yn cael ei chyfrifo trwy rannu nifer cyffredinol yr ystafelloedd/gwelyau a werthir â nifer cyffredinol yr ystafelloedd/gwelyau sydd ar gael yn y sector.

# Sector â gwasanaeth







# Sector â gwasanaeth

## Deiliadaeth yn Cynyddu'n Gyson


- Cynyddodd deiliadaeth yn gyson yn ystod Chwarter 1
- Nid oes data ar gyfer 2022 y gellir ei gymharu er mwyn cymharu flwyddyn ar ôl blwyddyn



# Sector â gwasanaeth


## Rhywfaint o wahaniaeth yn ôl rhanbarth

- Gogledd Cymru a'r De-ddwyrain ar y blaen o ran deiliadaeth ystafelloedd
- Canolbarth Cymru y tu ôl i'r De-orllewin ond dim ond o drwch blewyn




## Cyfran uwch o ymwelwyr tramor yng Ngogledd Cymru


- Ar yr adeg gynnar hon o'r flwyddyn mae'r ymwelwyr yn dod o'r DU yn bennaf.
- Dim data cyn-Covid ar gael ar gyfer cymariaethau



# Sector â gwasanaeth


## Mae eiddo mwy yn llenwi mwy o welyau

- Trothwy uwch / o dan tua 10 ystafell
- Mae'r sector â gwasanaeth yng Nghymru yn cynnwys llawer o ficrofusnesau. Felly, er bod busnesau mwy yn perfformio'n well na rhai llai, maent yn gyfran gymharol lai o'r farchnad yn gyffredinol




## Rhaniad yn ôl math o eiddo yn cyd-fynd â'r rhaniad yn ôl maint


- Yn gyffredinol, mae gan westai fwy o ystafelloedd ac felly'n perfformio'n well na thai gwestai a gwely a brecwast
- Mae'r canlyniadau'n dangos gwahaniaethau amlwg o ran deiliadaeth rhwng y ddau fath o eiddo



# STR Global – Data am Westai


## Gwestai Mwy yn Adfer

- Mae STR Data yn dangos bod gwestai mwy (ac sy'n fwyaf tebygol o fod yn westai cadwyn) yn parhau i wella deiliadaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac eiddo â 51-100 ystafell sy'n gwneud orau
- Gwestai mawr (101+ ystafelloedd) sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn deiliadaeth o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer cyfnod Chwarter 1, ond gall hyn awgrymu eu bod yn gwella'n arafach.




## Cynnydd cyson

- Fel yn y data a adroddwyd uchod, mae cynnydd cyson mewn deiliadaeth, ond o fan cychwyn uwch.
- Gan fod data 2022 ar gael i'w gymharu, gallwn weld bod gwelliant cyffredinol flwyddyn ar ôl blwyddyn, a bod hynny'n fwyaf amlwg ym mis Ionawr




# STR Global – Data am Westai



## Amrywiadau Rhanbarthol

- O edrych ar y ddeiliadaeth fesul mis a rhanbarth, gwelwn fod deiliadaeth wedi cynyddu fis ar ôl mis yn y De-orllewin ar gyfer 2023 hyd yma, er mai yn y Gogledd y nodwyd y lefelau uchaf o ran deiliadaeth yn gyffredinol ym mis Chwefror (81%).
- Gwelwyd gostyngiad bach ym mis Mawrth yn y Gogledd a'r De-ddwyrain o'i gymharu â mis Ionawr a mis Chwefror. Fodd bynnag, mae Deiliadaeth yn gyffredinol yn parhau'n uchel yn y mathau hyn o eiddo o gymharu â'r canlyniadau a adroddwyd yn gynharach yn Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru.




# STR Global – Data am Westai




**ADR i fyny ers y llynedd**

- Roedd y Gyfradd Ddyddiol Gyfartalog ar ei huchaf ym mis Chwefror ac roedd yn uwch flwyddyn ar ôl blwyddyn ar gyfer mis Ionawr a mis Mawrth ond roedd yn is na lefelau 2022 ym mis Mawrth.




**RevPAR i fyny hefyd**

- Mae refeniw fesul ystafell sydd ar gael (a gyfrifir trwy luosi cyfradd ddyddiol gyfartalog gwesty (ADR) â'i gyfradd deiliadaeth) yn dangos cynnydd cyffredinol tebyg i ADR uchod, a cheir gostyngiad cyfatebol mewn gwerth ym mis Mawrth o dan lefelau 2022.
- Mae gwahaniaeth mwy amlwg flwyddyn ar ôl blwyddyn o gymharu ag ADR, yn enwedig ym mis Ionawr.




# STR Global – Data am Westai




**Amrywiadau Rhanbarthol**

- Mae dadansoddiad ar y lefel ranbarthol yn dangos rhywfaint o amrywiad ar draws rhanbarthau, ond mae'r amrywiad rhwng blynyddoedd yn un cymharol fach.
- Mae'r De-ddwyrain yn perfformio'n well na'r Gogledd a'r De-orllewin, er bod y De-orllewin yn dangos y newid mwyaf o flwyddyn i flwyddyn.




**Gwahaniaethau Mwy**

- Mae RevPAR yn dangos gwahaniaethau mwy o gymharu ag ADR ond mae'r patrwm yn debyg i'r un lle mae'r De-ddwyrain yn perfformio'n well na'r Gogledd a'r De-orllewin.
- Mae hyn yn dangos cynnydd blynyddol ychydig yn uwch yn y De-ddwyrain o'i gymharu â'r ddau ranbarth arall, ac yn y Gogledd y gwelwyd y cynnydd lleiaf.



# Sector hunanddarpar




# Sector hunanddarpar

## Cynnydd cyson

- Cynyddodd y ddeiliadaeth fesul uned yn gyson fis ar ôl mis ond bu gostyngiad bach mewn deiliadaeth gwelyau ym mis Mawrth


- Mae'r lefelau deiliadaeth a gofnodir trwy'r WAOS yn uwch na'r rhai a gofnodwyd gan Transparent (gweler tudalen X). Y ffaith mai busnesau mwy o faint a mwy sefydledig sy'n cael eu samplu yn arolwg WAOS sydd i'w gyfrif am hynny yn ôl pob tebyg, tra bod data Transparent yn fwy tebygol o gynnwys perchnogion llai ac unigol sy'n gosod eiddo.



# Sector Hunanddarpar


## Perfformiad cryf yn y De-orllewin

- Mae De-orllewin Cymru ymhell ar y blaen i Ogledd, Canolbarth a De-ddwyrain Cymru.
- Mae gwahaniaethau rhanbarthol amlwg wedi'u cofnodi yma. Mae asiantaethau a busnesau mawr yn effeithio ar y rhain ac yn effeithio ar gyfartaleddau rhanbarthol cyffredinol.




## Busnesau mwy yn cyflawni % uwch o ran deiliadaeth

- Roedd busnesau gyda mwy na 10 gwely (ar draws un uned neu fwy) yn llawer mwy llawn yn ystod Ionawr – Mawrth.
- Mae busnesau mwy hefyd yn perfformio'n llawer uwch na'r cyfartaledd o ran deiliadaeth
- Yr un canfyddiad â'r un yn y sector â gwasanaeth




# Sector Hunanddarpar

**% deiliadaeth uwch gan fusnesau asiantaeth**

- Mae ymatebwyr hunanddarpar i WAOS wedi'u rhannu'n "ddychwelwyr bloc" a rhai "annibynnol". Mae dychwelwyr bloc yn sefydliadau mawr sydd â sawl uned tra bod y rhai annibynnol yn berchen ar un neu nifer fach iawn o unedau.

- Llwyddodd busnesau sy'n rhan o asiantaeth neu grŵp i lenwi 64% o'u hystafelloedd - sy'n sylweddol uwch na busnesau annibynnol (27%)




# Gwybodaeth Transparent – Data am Osod Tymor Byr




## Amrywiad isel

- Mae deiliadaeth ar draws y misoedd yn dangos amrywiad isel fis ar ôl mis ac mae'n cyd-fynd â lefelau 2022 am yr un cyfnod.
- Mae'r ffigurau hyn yn is na'r rhai a adroddwyd yn WAOS ar gyfer busnesau a samplwyd.




## Amrywiadau Rhanbarthol

- Mae mwy o amrywiaeth ar y lefel ranbarthol o gymharu â rhwng misoedd ond nid o rhyw lawer, gyda Chanolbarth Cymru a'r De-orllewin yn nodi'r ffigyrau uchaf.
- Fodd bynnag, gwnaeth pob rhanbarth yn waeth fis ar ôl mis yn 2023 o'i gymharu â 2022, ac yn y De-ddwyrain y gwelwyd y gostyngiad lleiaf.




# Gwybodaeth Transparent – Data am Osod Tymor Byr


**Cymharu**

- Mae cymharu Transparent ac Arolwg Deiliadaeth Llety Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng Ionawr a Mawrth yn dangos gwahaniaeth llawer mwy amlwg ym mis Chwefror a mis Mawrth o gymharu â mis Ionawr

- Mae WAOS yn nodi lefelau deiliadaeth uwch yn gyffredinol a chynnydd cyffredinol cyson, tra bod data Transparent yn dangos gostyngiad bach ym mis Mawrth



# Sector hosteli




# Sector hosteli

## Perfformiad cymaradwy

- Dangosodd y sector hosteli gynnydd o fis i fis o ran deiliadaeth ac adroddwyd lefelau cymaradwy ond ychydig yn is.

## Cymharu ymwelwyr o'r DU a thramor

- O'r DU y daeth 99% o ymwelwyr â Hosteli rhwng Ionawr a Mawrth o'r DU; roedd 1% o dramor
- Tebyg i'r rhaniad yn y sector â gwasanaeth



# Goblygiadau



# Goblygiadau i Croeso Cymru a Phartneriaid

**Mae data trydydd parti (STR a Transparent) yn dangos canlyniadau diddorol**

- Mae data gan STR ar lety mwy sydd â gwasanaeth yn dangos perfformiad cyffredinol cryfach o'i gymharu â llety llai sydd â gwasanaeth a rhai sectorau eraill.
- Mae'r eiddo hyn yn tueddu i fod yn westai cadwyn mawr a allai esbonio'r perfformiad uchel hwn
- Mae data gan Transparent am Osod Tymor Byr yn dangos lefelau perfformiad is na'r rhai a gofnodir yn yr arolwg Deiliadaeth Llety

**Ar y cyfan**

- Mae data o 2023 hyd yma yn dangos sector llety sy'n llwyddo ar y cyfan i gynnal perfformiad yn yr amgylchedd economaidd ôl-COVID.
- Fodd bynnag, fel y nodwyd yn y Baromedr Twristiaeth diweddaraf, mae llawer o fusnesau yn cael trafferth gyda chostau uwch a llai o elw. Felly, mae lefelau deiliadaeth is yn gyffredinol yn cael effaith economaidd llawer uwch ar fusnesau.
- Mae rhai gwahaniaethau rhwng sectorau o ran perfformiad, er y gwahaniaethau rhanbarthol yw'r rhai amlycaf yn aml gyda gwahanol ranbarthau'n perfformio'n gryf yn dibynnu ar y sector.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r canlyniadau hyn gan fod cyfnod Chwarter 1 o fis Ionawr i fis Mawrth yn amser tawel i lawer o ddarparwyr llety, felly bydd y niferoedd yn is beth bynnag